# Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored

Polisi Meini Prawf a Dad-ddethol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys


Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored 3

Ein Gweledigaeth 3

Dod yn Ysgol Bartner 4

Ysgolion Partner Arweiniol 5

Ysgolion Partner 5

Proses Adolygu Statws Partneriaeth 7

Dad-ddethol Ysgolion o'r Bartneriaeth 8

Meini prawf ar gyfer Cynnwys Ysgolion 11

Gwneud cais i fod yn rhan o Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored 12

Cwestiynau Cyffredin 13

# Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored

Ers dros hanner can mlynedd, mae'r Brifysgol Agored wedi helpu 2 filiwn o fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd i gael mynediad at addysg uwch ac ennill cymwysterau o ansawdd i'w helpu i gychwyn ar eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu'r broses dysgu o bell fel y gall myfyrwyr astudio o gwmpas eu bywydau prysur. Rydym yn cynnig cymhwyster TAR Cymru gyfan unigryw gyda dau lwybr astudio: opsiwn yn seiliedig ar gyflogaeth, sef y Llwybr cyflogedig a llwybr Rhan Amser ar wahân a hunanariennir.

Mae gan Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored genhadaeth cyfiawnder cymdeithasol bwysig. Rydym yn defnyddio ein harbenigedd ym maes addysg athrawon a dysgu o bell er mwyn denu darpar athrawon o bob cymuned ledled Cymru. Mae cyfuno addysgu ar-lein â phrofiad addysgu mewn ysgol dros gyfnod o ddwy flynedd yn helpu i ddileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod yn athrawon. Mae hyn yn cynnig cyfle i gymhwyso ochr yn ochr â gwaith presennol neu gyfrifoldebau gofalu, gan ei wneud yn fwy hygyrch i bobl, gan gynnwys y rhai sy'n newid eu gyrfaoedd neu fyfyrwyr hŷn.

## Ein Gweledigaeth

Mae Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru yn seiliedig ar gydweithrediad agos rhwng ysgolion a phrifysgolion. Ffurfiwyd y bartneriaeth ar ddiwylliant o gydberchnogaeth ac atebolrwydd. Mae gweledigaeth a rennir ar gyfer cynnydd athrawon newydd wrth wraidd diwylliant y Bartneriaeth, lle mae arbenigedd a chyfraniad unigryw pob partner i'r hyn y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei ddysgu yn cael eu cydnabod a'u dathlu.

Ein gweledigaeth yw y gall Y Brifysgol Agored ac ysgolion weithio mewn partneriaeth er mwyn dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan i gynnig llwybr hyblyg ar gyfer datblygu athrawon rhagorol a all ei chael hi'n anoddach cael mynediad at lwybrau traddodiadol. Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a chymunedau ledled Cymru. Ein nod yw ehangu mynediad at addysgu a'i amrywio a chefnogi'r broses o recriwtio ar gyfer pynciau lle ceir prinder athrawon. Rydym yn cynnig yr unig lwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth a'r unig lwybr rhan amser yng Nghymru. Mae dysgu o bell a thechnoleg arloesol (megis arsylwad gwers o bell) yn ganolog i'n model addysgu. Rydym yn gwahodd ysgolion sy'n cysylltu'n gryf â'n gweledigaeth a'n cenhadaeth i ymuno â ni fel Ysgol bartner.

## Dod yn Ysgol Bartner

Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored yn adlewyrchu amrywiaeth y system addysg yng Nghymru ac yn annog ystod eang o ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig i ymuno â'r Bartneriaeth.

Mae'n bwysig bod ysgol sy'n gwneud cais i ddod yn ysgol bartner yn adfyfyrio ar ei threfniadau paratoi a'i gallu i ymgysylltu â'r rhaglen a bodloni'r gofynion achredu ar gyfer rolau a chyfrifoldebau ysgol bartner. Rydym yn gweithio'n agos gyda phob Consortia Rhanbarthol ac arweinwyr AGA yr Awdurdodau Lleol perthnasol ac maent yn chwarae rhan bwysig wrth gymeradwyo ceisiadau am statws partner. **Dylai unrhyw ysgol sy'n dymuno gwneud cais am statws partner drafod hyn ag arweinydd AGA y Consortia Rhanbarthol cyn gwneud cais** (cysylltwch â Wales-PGCE@open.ac.uk er mwyn cael manylion yr arweinydd AGA os oes angen).

Yna, gall ysgolion ystyried pa statws y maent am wneud cais amdano ac sy'n gweddu orau i gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol. Pennwyd y rolau a'r cyfrifoldebau hyn yn unol â'n model achrededig mewn ymateb i'r

Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023). Efallai y byddai adolygu Adran A, Rhan 3, sy'n nodi'r weledigaeth o ran y broses gydweithio rhwng ysgolion a phrifysgolion o fewn modelau AGA diwygiedig, yn ddefnyddiol i chi.

## Ysgolion Partner Arweiniol

Mae Ysgolion Arweiniol yn chwarae rôl allweddol yn y broses o lywodraethu a datblygu pob agwedd ar ddarpariaeth Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored. Maent yn aelodau o'r Pwyllgor Partneriaeth, ac mae ganddynt amrywiaeth eang o gyfrifoldebau strategol a gweithredol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth Partneriaeth Y Brifysgol Agored a datblygu cynnydd athrawon dan hyfforddiant. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn y pecyn Gwybodaeth Ysgolion Arweiniol sydd ar gael ar gais.

## Ysgolion Partner

Mae ysgolion partner yn chwarae rhan allweddol wrth ehangu mynediad at addysgu drwy gefnogi proses ddysgu athrawon dan hyfforddiant rhan amser mewn tri lleoliad ymarfer dysgu mewn blwyddyn. Mae ein model yn seiliedig ar ysgolion sydd ar ffurf patrwm AAB, lle y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn treulio 60 diwrnod y flwyddyn ar leoliad.

Mae'n bosibl y bydd ysgolion partner yn dymuno ardystio aelod presennol o'r staff neu gael eu paru â myfyriwr uwchradd cyflogedig. Mae hyn yn golygu y gall ysgolion roi dull meithrin aelod presennol o staff ar waith neu fuddsoddi mewn strategaethau hirdymor ar gyfer y gweithlu. Bydd angen i ysgolion ymrwymo i gefnogi'r aelod o staff ar bwynt 1 y raddfa gyflogau ar gyfer athrawon heb gymhwyso drwy gydol y rhaglen ar sail amser llawn a chynnig amser rhyddhau sylweddol (50% ym mlwyddyn 1) er mwyn sicrhau amserlen sy'n cyfuno dyletswyddau cyflogaeth ac astudiaeth TAR.

Mae'n ofynnol i ysgolion partner sy'n ardystio myfyriwr cyflogedig gyflwyno llythyr ardystiad a dylai cyflogai'r ysgol gwblhau ffurflen gais TAR Y Brifysgol Agored (ar gael ar wefan Y Brifysgol Agored).

Gall ysgolion uwchradd sy'n dymuno cefnogi Myfyriwr cyflogedig, ond nad ydynt eisoes yn cyflogi aelod presennol o staff priodol, ofyn am gael eu paru ag ymgeiswyr sy'n addas ar gyfer y Llwybr cyflogedig (lle y bydd ffactorau megis lleoliad daearyddol a dewis pwnc yn gwneud hyn yn bosibl). Yn gyntaf, dylech drafod bwriad eich ysgol ag Arweinydd AGA y Consortia Rhanbarthol neu cysylltwch â Wales-PGCE@open.ac.uk. **Mae'r Bartneriaeth yn cynghori ysgolion i drafod unrhyw rwymedigaethau cytundebol â'u hadran adnoddau dynol ddynodedig.**

Er mwyn dod yn ysgol bartner, byddwch yn gosod gwerth uchel ar y llwybr rhan amser a'r llwybr cyflogedig ac yn rhannu ein cenhadaeth gymdeithasol gadarn sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd angen i chi fod yn ysgol wladol a gynhelir, a all arddangos prosesau addysgu a dysgu o safon uchel a'i chynnydd tuag at y Cwricwlwm i Gymru er mwyn bodloni ein meini prawf mynediad. Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer eich staff ac yn cefnogi eich mentoriaid i fodloni'r Safonau Arweinyddiaeth. Byddwn hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol i gefnogi rhwng dau a phedwar athro dan hyfforddiant fel rheol. Mae hyn yn sicrhau rhwydwaith cymheiriaid da, sy'n hanfodol ar gyfer dysgwyr o bell, ac yn galluogi ysgolion i ymgorffori dulliau addysg gychwynnol i athrawon yn strategol.

- ✓ Dysgwch fwy am Lwybr Rhan Amser TAR yma.
- ✓ Dysgwch fwy am Lwybr cyflogedig TAR yma

## Proses Adolygu Statws Partneriaeth

Caiff statws partneriaeth gychwynnol ysgolion ei adolygu bob dwy flynedd (yn unol â hyd y rhaglen). Bydd y meini prawf y mae'n rhaid i ysgolion eu bodloni er mwyn cael eu dewis yn cael eu hadolygu gan y Bartneriaeth (a'u harwain gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Recriwtio, Derbyn a Chadw) bob dwy flynedd.

Dylai ysgolion hysbysu'r Bartneriaeth o unrhyw newidiadau i'w gallu i fodloni meini prawf eu statws cyn gynted â phosibl.

Hefyd, gall staff y Bartneriaeth godi unrhyw newidiadau i allu ysgol i fodloni'r meini prawf ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw â Chyfarwyddwr y rhaglen TAR. Gall enghreifftiau o newidiadau i amgylchiadau ysgolion a all effeithio ar eu gallu i fodloni'r meini prawf gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Newidiadau sylweddol i'r trefniadau staffio neu arweinyddiaeth.
- Gweithredu diwydiannol.
- Cyngor gan Gynghorydd Herio
- Newidiadau sylweddol i'r ysgol, megis ei chau/ffedereiddio/cyfuno/ysgol newydd yn cael ei hagor a all effeithio ar y statws adolygu.
- Adborth gan Estyn (e.e. mesurau arbennig, gwelliannau sylweddol, ymweliadau dilynol).
- Materion a godwyd drwy Fframweithiau Cymorth i Fyfyrwyr neu Ddatrys Materion.
- Wedi methu â bodloni'r meini prawf y cofrestrwyd ar eu cyfer o ran cyflawni statws ysgol bartner/arweiniol.

Gall unrhyw aelod o'r Bartneriaeth godi newidiadau o ran gallu ysgol i fodloni'r meini prawf ar gyfer ei Statws Partneriaeth, gan gynnwys:

- Yr ysgol (e.e. y Pennaeth neu Arweinydd AGA)
- Arweinwyr AGA y Consortia Rhanbarthol / yr Awdurdod Lleol
- Tiwtoriaid Ymarfer
- Mentoriaid / Cydgysylltwyr Ysgolion
- Athrawon dan hyfforddiant
- Tiwtoriaid Cwricwlwm

Os caiff y Bartneriaeth ei hysbysu o newidiadau i allu ysgol i fodloni'r meini prawf, bydd hyn yn sbarduno Adolygiad Statws Partneriaeth drwy'r Fframwaith Datrys Materion. Gall canlyniadau adolygiad o'r fath gynnwys y canlynol:

- Newid i statws Partneriaeth yr ysgol (e.e. gall Ysgol Bartner Arweiniol leihau ei hymrwymiadau strategol i lefel Ysgol Bartner).

- Camau lliniaru ychwanegol er mwyn rhoi cymorth pellach i'r ysgol a/neu'r myfyriwr i fynd i'r afael â'r meysydd y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt.
- Ni all yr ysgol gynnig lleoliad i fyfyrwyr yn y tymor byr neu'r hirdymor.
- Dad-ddethol ysgol o'r Bartneriaeth.

## Dad-ddethol Ysgolion o'r Bartneriaeth

Gwahoddir Ysgolion Partner Arweiniol i chwarae rhan lawn yn y gwaith o lunio a chyflawni'r rhaglen yn strategol. Os na fydd yr Ysgol Bartner Arweiniol yn ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor Partneriaeth (e.e. yn aml yn absennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor a'r is-bwyllgor; ddim yn cefnogi lleoliadau athrawon dan hyfforddiant ar gyfer hyd eu cyfnod statws), dylai Cyfarfod Adolygu'r Bartneriaeth gael ei chynnal.

Mae dad-ddethol ysgol bartner o'r Bartneriaeth yn benderfyniad mawr a difrifol. Byddai'r Bartneriaeth yn ymdrechu, gan ddefnyddio'r Fframwaith Datrys Materion, i weithio'n agos gyda'r ysgol i ddarparu cymorth a chamau lliniaru lle y bo'n bosibl er mwyn datrys materion yn y lle cyntaf, yn seiliedig ar egwyddorion aeddfedrwydd, gonestrwydd a thryloywder. Dylai'r penderfyniad i ddad-ddethol ysgol gael ei wneud drwy ymgynghori'n agos â phennaeth yr ysgol a lle y bo'n bosibl, dylai'r ddwy ochr ddod i gytundeb.
Os na fydd y ddwy ochr yn dod i gytundeb, neu os nad yw'r ysgol yn ymgysylltu â'r Fframwaith Datrys Materion, gall Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored dynnu statws partneriaeth yr ysgol yn ôl heb ymgynghoriad.

Os bydd unrhyw newidiadau i amgylchiadau ysgol yn golygu bod effaith y camau lliniaru yn gyfyngedig, neu os bydd yr ysgol yn cael ei hysbysu gan Estyn ei bod yn anfoddhaol a bod angen gwella ar frys, rhaid i'r Bartneriaeth adolygu lleoliad unrhyw athrawon dan hyfforddiant rhan amser neu gyflogedig yn yr ysgol.
Lle y bo'n bosibl, gall myfyrwyr rhan amser gael eu lleoli mewn ysgol arall. Os bydd ysgol yn cynnal myfyriwr cyflogedig, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ansawdd profiad yr athro dan hyfforddiant yn yr ysgol fel safle dysgu ar sail ymarfer. Dylai athrawon dan hyfforddiant bob amser gael eu hawl sylfaenol. Bydd angen i aelodau'r Panel Datrys Materion benderfynu:

- A ellir cymryd camau lliniaru cryf er mwyn helpu'r myfyriwr cyflogedig i aros yn yr ysgol. Gall enghreifftiau o gamau lliniaru gynnwys:
    - Ymweliadau ychwanegol gan Diwtoriaid ymarfer â'r ysgol (er mwyn helpu'r athro dan hyfforddiant a/neu'r mentor)

- Tiwtorialau ar-lein ychwanegol gyda'r Tiwtor Cwricwlwm
- Cymorth ychwanegol gan Ysgol Bartner Arweiniol (e.e. addysgu isafswm o 50% mewn Ysgol Bartner Arweiniol)

Dylid cynnig lleoliad amgen i'r myfyriwr cyflogedig mewn ysgol arall. Er y gwneir pob ymdrech i helpu'r myfyriwr i ddod o hyd i leoliad cyflogedig arall, efallai y bydd angen i'r myfyriwr drosglwyddo i'r llwybr rhan amser er mwyn cwblhau'r cymhwyster TAR mewn lleoliad arall.

Bydd yn ofynnol i ysgolion sy'n wynebu cyfnodau sylweddol o newidiadau, gan gynnwys newidiadau i Arweinyddiaeth Ysgolion; cyfuno ysgolion / rhaglenni adeiladu mawr; cyfran uchel o athrawon newydd neu amhrofiadol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, ail-ymgeisio ar gyfer y Bartneriaeth.

# Meini prawf ar gyfer Cynnwys Ysgolion

| | |
|---|---|
| 1. | Ysgol effeithiol ar gyfer AGA wedi'i chydnabod am ei darpariaeth o ansawdd uchel i athrawon dan hyfforddiant. |
| 2. | Ymrwymiad amlwg i weledigaeth Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored a'i nod o ehangu mynediad at addysgu, amrywio'r proffesiwn addysgu a chefnogi'r broses recriwtio i addysgu drwy lwybrau amgen a hyblyg. Mae'n rhaid i chi allu cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol i gefnogi athrawon dan hyfforddiant gan ddilyn trefniadau astudio o bell a ffurf gyfunol o astudio. |
| 3. | Derbyn atebolrwydd ar y cyd am gydymffurfiaeth y ddarpariaeth â'r Meini Prawf Achredu statudol ar gyfer AGA yng Nghymru a gallu cadarnhau bod pob un o ofynion y rhaglen wedi'u deall ac y gellir eu bodloni'n effeithiol yn yr ysgol. |
| 4. | Cynnig cyfleoedd perthnasol a meddu ar ddigon o gapasiti ac arbenigedd i gefnogi a galluogi pob athro dan hyfforddiant i wneud cynnydd o'i bwynt mynediad yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac er mwyn cyflawni Statws Athro Cymwysedig. |
| 5. | Ymrwymiad amlwg i ddatblygu proffesiwn ymgysylltiol a gaiff ei lywio gan ymchwil a meddu ar ddiwylliant a rennir o ddulliau wedi'u llywio gan dystiolaeth yn yr ysgol er mwyn galluogi athrawon dan hyfforddiant i addysgu, ymchwilio, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymholiad proffesiynol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| | drwy astudio gwersi a chwblhau prosiect ymchwil ar raddfa fach. |
| ***Ar gyfer Ysgolion Arweiniol yn unig:*** Bydd disgwyl i Ysgolion Arweiniol fodloni pob agwedd ar Feini Prawf 1 – 5 i lefel effeithiol iawn a bydd yn ofynnol iddynt ddangos sut y gallant gefnogi ymarfer ysgolion partner yn ehangach a dylanwadu ar hyn. | |
| 6. | Capasiti sylweddol ac arbenigedd o ansawdd uchel ar gyfer cyd-arwain Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored, gan rannu atebolrwydd ar y cyd ym mhob penderfyniad a phroses strategol a chyfrannu'n rhagweithiol at y broses barhaus o wella ansawdd a threfniadau llywodraethu meysydd y rhaglen. |
| 7. | Capasiti ac arbenigedd mewn egwyddorion a phrosesau cydweithio gyda'r gallu i arwain a dylanwadu ar arloesedd addysgegol o fewn y rhwydwaith ysgolion partner ehangach. |

## Gwneud cais i fod yn rhan o Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored

Yn y lle cyntaf, dylai ysgolion gysylltu ag Arweinydd AGA y Consortia Rhanbarthol dynodedig er mwyn cofrestru eu diddordeb ac i drafod gofynion y rhaglen yn fanylach. Bydd y Pwyllgor Partneriaeth yn hysbysebu pan fydd cyfleoedd i ymuno â Phartneriaeth Y Brifysgol Agored ar gael a gellir gweld gwybodaeth fanwl ar wefan y Bartneriaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os bydd angen cyngor arnoch ar y broses hon, cysylltwch â Wales- PGCE@open.ac.uk

Gwnewch gais drwy ddefnyddio ein ffurflen gais ar-lein , sy'n dangos sut mae eich ysgol yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

## Cwestiynau Cyffredin

**Rydym yn ysgol arbennig – a allwn gefnogi myfyrwyr partneriaeth Y Brifysgol Agored?**

Mae Partneriaeth Y Brifysgol Agored yn croesawu cyfranogiad ac arbenigedd ysgolion arbennig fel Ysgolion arweiniol ac Ysgolion partner. Dylai pob ysgol, gan gynnwys ysgolion arbennig, sydd am ymuno â'r Bartneriaeth a darparu Addysg Gychwynnol i Athrawon fodloni'r holl ofynion, rolau a chyfrifoldebau fel y nodir yn y meini prawf.

**Rydym yn Uned Cyfeirio Disgyblion – a allwn gefnogi myfyrwyr partneriaeth Y Brifysgol Agored?**

Ni all myfyrwyr Partneriaeth Y Brifysgol Agored (myfyrwyr rhan amser a chyflogedig) gael eu lleoli mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ar hyn o bryd. Rydym yn annog ein myfyrwyr i ystyried amrywiaeth eang o leoliadau addysgol er mwyn ymgymryd â chyfnodau byr o wella a chyfoethogi yn ystod ail flwyddyn y rhaglen. Gall athrawon dan hyfforddiant fynychu Uned Cyfeirio Disgyblion fel rhan o'u gweithgareddau cyfoethogi.

**Rydym yn ysgol annibynnol. A allwn gefnogi athrawon dan hyfforddiant Partneriaeth Y Brifysgol Agored?**

Ni all myfyrwyr Partneriaeth Y Brifysgol Agored (myfyrwyr rhan amser a chyflogedig) gael eu lleoli mewn ysgolion annibynnol ar hyn o bryd. Rydym yn annog ein myfyrwyr i ystyried amrywiaeth eang o leoliadau addysgol er mwyn ymgymryd â chyfnodau o wella a chyfoethogi yn ystod ail flwyddyn y rhaglen.

Gall athrawon dan hyfforddiant fynychu lleoliad annibynnol fel rhan o'u gweithgareddau cyfoethogi.

### A allwn gefnogi myfyrwyr rhan amser a myfyrwyr cyflogedig?

Rydym yn annog ysgolion i leoli myfyrwyr rhan amser a myfyrwyr cyflogedig ar unrhyw adeg benodol. Mae hyn yn sicrhau rhwydwaith cymheiriaid da, sy'n hanfodol ar gyfer dysgwyr o bell, ac yn galluogi ysgolion i ymgorffori dulliau addysg gychwynnol i athrawon yn strategol.

Mae Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yn gwneud y cyfraniadau ariannol isod at y broses o fentora myfyrwyr:

- £600 i bob myfyriwr rhan amser, fesul lleoliad 60 diwrnod
- £300 i bob myfyriwr cyflogedig, fesul lleoliad 30 diwrnod mewn ail ysgol
- Bydd ysgolion sy'n ardystio myfyriwr cyflogedig yn cael taliad o £900 (£300 ym Mlwyddyn 1 a £600 ym Mlwyddyn 2)

### A yw'n ofynnol i fyfyrwyr TAR Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored gwblhau profiadau mewn lleoliadau eraill?

Mae'n orfodol i bob athro dan hyfforddiant gael profiadau ysgol mewn o leiaf ddwy ysgol wahanol a gall hefyd gynnwys profiadau mewn lleoliadau addysgol eraill er mwyn ehangu gwybodaeth a meithrin sgiliau athrawon dan hyfforddiant mewn amgylchedd cydweithredol â chyd-weithwyr proffesiynol.

### Sut mae rhaglen TAR Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored yn gweithio ar gyfer ysgolion bach?

Rydym yn annog ysgolion bach i gysylltu â Wales-PGCE@open.ac.uk er mwyn trafod sut y gall ein model weithio ar eu cyfer nhw. Gallwn gynnig opsiynau cydweithredol ar gyfer mentora myfyrwyr cyflogedig mewn lleoliadau ysgolion bach.

**Ble gallaf ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol am sut y caiff y rhaglen hon ei chyflwyno o ddydd i ddydd?**

Gall ysgolion gael gafael ar ganllawiau a gwybodaeth datblygu proffesiynol am ddim yn *Adnoddau a Hyfforddiant Ysgolion Partner* ar wefan Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored. Gall Cydlynwyr a Mentoriaid Ysgolion adolygu'r canllaw ar ymarfer dysgu sy'n cynnwys manylion am y gofynion mentora ac amserlenni; dod o hyd i restrau gwirio ar gyfer dyddiadau allweddol yn ogystal â chael gafael ar recordiadau o ddigwyddiadau datblygu proffesiynol diweddar.

**Diolch am ddangos diddordeb ym Mhartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored.**

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru